# Arweiniad ar gyfer arolygwyr

## Beth rydym yn ei arolygu

Colegau arbenigol annibynnol

Medi 2022



estyn.llyw.cymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Cyflwyniad i ‘Beth rydym yn ei arolygu’** **1**

Gwerthuso pob maes arolygu 2
Ynglŷn â’r coleg 2
Trosolwg 2
Argymhellion 3
Beth sy’n digwydd nesaf? 3
Sail dystiolaeth yr arolygiad 3

**Meysydd arolygu** **4**

1 Dysgu 4
2 Lles ac agweddau at ddysgu 6
3 Addysgu a phrofiadau dysgu 7
4 Gofal, cymorth ac arweiniad 10
5 Arweinyddiaeth a rheolaeth 12

## Cyflwyniad i 'Beth rydym yn ei arolygu'

Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu'r hyn y mae angen i arolygwyr ei ystyried wrth werthuso'r pum maes arolygu mewn colegau addysg bellach. Mae'n esbonio 'Beth rydym yn ei arolygu'. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r ddogfen 'Sut rydym yn arolygu', sy'n amlinellu ein hymagwedd at arolygu yn sgil pandemig COVID-19.

Mae'r arweiniad yn ddeunydd darllen hanfodol ar gyfer arolygwyr cofnodol a phob aelod arall o'r tîm arolygu, yn cynnwys yr enwebai. Gall fod yn ddefnyddiol ar gyfer colegau i gefnogi eu dealltwriaeth o'r arweiniad arolygu hefyd. Mae llawlyfr ar wahân sy'n esbonio'r broses a'r fethodoleg arolygu, sef 'Sut rydym yn arolygu'.

Mae'r pum maes arolygu wedi'u hamlinellu isod.

**Meysydd arolygu**

**MA1 – Dysgu**

1.1 Safonau a chynnydd mewn dysgu a medrau

**MA2 – Lles ac agweddau at ddysgu**

2.1 Lles
2.2 Agweddau at ddysgu

**MA3 – Addysgu a phrofiadau dysgu**

3.1 Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm
3.2 Ansawdd yr addysgu a'r asesu

**MA4 – Gofal, cymorth ac arweiniad**

4.1 Datblygiad personol
4.2 Diogelu

**MA5 – Arweinyddiaeth a rheolaeth**

5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr
5.2 Prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant
5.3 Dysgu proffesiynol

## Gwerthuso pob maes arolygu (MA)

Ni fydd timau arolygu'n rhoi graddau cyffredinol ar gyfer pob maes arolygu. Fodd bynnag, byddant yn llunio gwerthusiad cadarn a thrylwyr o ddarpariaeth y coleg a'i heffaith ar ddysgu a lles dysgwyr.

Bydd arolygwyr bob amser yn cynnwys gwerthusiadau clir o ran y gofynion adrodd ym mhob maes arolygu, fel y dangosir yn y llawlyfr hwn. Fodd bynnag, gallai'r hyn y mae arolygwyr yn adrodd arno ym mhob maes arolygu fod yn wahanol, yn dibynnu ar arwyddocâd cymharol yr hyn y maent yn ei ganfod ym mhob coleg. Gallai arolygwyr adrodd 'trwy eithriad'. Mae hyn yn golygu y gallent adrodd ar rai agweddau dim ond ble mae cryfderau neu wendidau penodol.

## Ynglŷn â'r coleg

Bydd yr adran hon o'r adroddiad fod yn fyr ac yn cynnwys gwybodaeth gefndir ffeithiol yn unig am y coleg. Ni fydd yn cynnwys unrhyw werthusiad o'r ddarpariaeth. Gan amlaf, bydd yr arolygydd cofnodol yn cytuno ar gynnwys yr adran hon gyda'r coleg yn ystod yr arolygiad ac yn ystod gwiriad ffeithiol y coleg o'r adroddiad drafft cyn ei gyhoeddi. Os bydd anghytuno ynglŷn â chynnwys yr adran hon, yr arolygydd cofnodol fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â beth i'w gynnwys yn yr adroddiad.

Bydd yr adran hon yn cynnwys gwybodaeth fras am y canlynol:

- maint, natur a lleoliad y coleg
- y proffil anghenion dysgu ychwanegol (ADY)[1] y mae'r coleg yn darparu ar ei gyfer
- cefndir ac amgylchiadau'r dysgwyr
- cefndir ieithyddol y dysgwyr
- ystod y rhaglenni dysgu a gynigir, a'u lefel
- unrhyw newidiadau pwysig ers yr arolygiad diwethaf
- dyddiad penodi'r pennaeth
- mis / blwyddyn arolygiad blaenorol y coleg

## Trosolwg

Dylai'r adran hon o'r adroddiad:

- gynnwys trosolwg byr o'r prif ganfyddiadau (200-300 gair), yn amlinellu'r cryfderau allweddol ac unrhyw wendidau pwysig y mae angen eu gwella
- creu'r cysylltiad rhwng deilliannau dysgwyr, ansawdd y ddarpariaeth ac effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth
- bod yn gyson â'r canfyddiadau yng nghorff yr adroddiad

[1] Rydym wedi defnyddio'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' ond yn cydnabod y gellir defnyddio'r termau 'anawsterau ac/neu anableddau dysgu' ac 'anghenion addysgol arbennig' hefyd yn y cyd-destun hwn yn ystod cyfnod rhoi'r diwygiadau ar waith.

## Argymhellion

Dylai'r argymhellion:

- gysylltu'n agos â phrif feysydd gwerthusiad yr arweiniad arolygu, gyda'r argymhellion pwysicaf yn cael eu hadlewyrchu yn y trosolwg
- rhoi syniad clir a phenodol i'r coleg am y maes / meysydd y mae angen ei wella / eu gwella
- helpu'r coleg i ddeall yn glir beth y dylent ei wneud er mwyn gwneud y gwelliannau angenrheidiol
- cael eu hysgrifennu yn nhrefn eu blaenoriaeth, nid yn ôl trefn yr arweiniad

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr adran 'Beth sy'n digwydd nesaf' yn amlinellu'r hyn y mae angen i'r coleg ei wneud ar ôl yr arolygiad. Ym mhob achos, bydd angen i arweinwyr ymateb i'r argymhellion trwy roi'r camau gweithredu sydd eu hangen i wneud y gwelliannau a nodwyd gan y tîm arolygu.

Dylai ddangos enghreifftiau o unrhyw astudiaethau achos arfer ddiddorol neu arloesol yr ydym wedi gwahodd arweinwyr i'w rhannu.

## Sail dystiolaeth yr arolygiad

Bydd arolygwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth i wneud yn siŵr bod eu canfyddiadau yn ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy. Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn esbonio'r ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiodd arolygwyr, yn ogystal ag ystod y gweithgareddau a wnaethant yn ystod eu hymweliad.

## Meysydd arolygu

Mae'r adran ganlynol yn esbonio beth mae pob maes arolygu yn ei gwmpasu, a'r hyn y mae angen i arolygwyr ei gadw mewn cof wrth werthuso pob un ohonynt.

Mae'r meysydd arolygu wedi'u rhifo 1 – 5, ond maent yr un mor bwysig â'i gilydd. O fewn pob maes arolygu, ni fydd yr adroddiad bob amser yn cwmpasu'r agweddau yn y drefn y maent yn ymddangos yn y llawlyfr hwn. Gallai arolygwyr ddewis rhoi'r agweddau mewn trefn wahanol er mwyn adlewyrchu eu canfyddiadau. Er enghraifft, ym Maes Arolygu 3 – Addysgu a phrofiadau dysgu, gallai arolygwyr ysgrifennu am addysgu cyn profiadau dysgu a darpariaeth os yw hyn yn gwneud canfyddiadau'r tîm yn gliriach, neu gallent gyfuno elfennau o addysgu a darpariaeth i esbonio eu canfyddiadau, lle bo'n briodol.

Bydd yr adroddiad ar bob maes arolygu fel arfer tua 500 i 700 o eiriau.

Mae arweiniad atodol ar arolygu agweddau amrywiol ar waith colegau ar gael ar ein gwefan: https://www.estyn.llyw.cymru/arolygu/arweiniad-atodol.

### Maes arolygu 1: Dysgu

#### 1.1 Safonau a chynnydd mewn dysgu a medrau

Dylai arolygwyr werthuso'r safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni yn gyffredinol a barnu a yw'r rhain yn briodol i alluoedd dysgwyr. Dylai arolygwyr gydnabod cynnydd dysgwyr, yn enwedig eu cynnydd ers dechrau yn y coleg, o un cyfnod i un arall, ac yn ystod y flwyddyn goleg.

Dylai gwerthusiad arolygwyr o gyflawniad a chynnydd dysgwyr gael ei seilio ar dystiolaeth uniongyrchol, er enghraifft o arsylwadau dysgwyr mewn sesiynau, teithiau dysgu, craffu ar waith dysgwyr (yn cynnwys gwaith wedi'i greu yn ddigidol) a thrafodaethau gyda dysgwyr. Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae dysgwyr yn adalw dysgu blaenorol, yn datblygu medrau meddwl, yn ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd, ac yn cymhwyso'r rhain i sefyllfaoedd newydd.

Dylai arolygwyr ystyried cyflawniadau a chyraeddiadau dysgwyr yn erbyn gwybodaeth waelodlin. Dylent ystyried a yw dysgwyr yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent o ystyried eu mannau cychwyn a'u hoedran a'u gallu. Er enghraifft, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr â medrau mwy datblygedig yn cyflawni a'r graddau y mae'r gwaith a wnânt yn eu hymestyn yn llawn i gyflawni cystal ag y gallent.

Dylai barnau am gyflawniad ystyried y rhain mewn cysylltiad â nodau dysgu cytûn. Dylai arolygwyr ystyried tystiolaeth yng nghynlluniau dysgu unigol dysgwyr, mewn cynlluniau datblygu unigol, a chynlluniau addysg, iechyd a gofal wrth lunio barn ar gyfradd y cynnydd a wna dysgwyr.

Dylai arolygwyr fod yn ymwybodol na fydd hi bob amser yn bosibl nac yn briodol cymharu canlyniadau dysgwyr mewn colegau arbenigol annibynnol gyda cholegau eraill. Fodd bynnag, mae'n bwysig ffurfio barn ar y graddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu potensial.

Pan fo'n briodol, bydd arolygwyr yn ystyried nifer ac ystod y cymwysterau achrededig y mae dysgwyr yn eu hennill, a ph'un a yw'r rhain yn cyd-fynd â'u gallu.

Dylai arolygwyr ystyried p'un a yw dysgwyr yn symud ymlaen i gyrsiau, hyfforddiant, cyflogaeth neu ddarpariaeth arbenigol sy'n briodol ar gyfer eu gallu, eu diddordebau a'u perfformiad blaenorol. Dylent ystyried cyfran y rhai sy'n gadael y coleg nad ydynt mewn cyflogaeth neu nad ydynt yn ymgymryd ag addysg a hyfforddiant (NACH).

Pan fo'n bosibl, dylai arolygwyr werthuso cynnydd grwpiau penodol o ddysgwyr, er enghraifft dysgwyr sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) a'r rhai o grwpiau ethnig lleiafrifol. Fodd bynnag, ni fydd hyn bob amser yn briodol.

Gallai fod yn briodol adrodd ar wahaniaethau rhwng cynnydd dysgwyr â gwahanol anghenion, er enghraifft cyflwr y sbectrwm awtistig (CSA) ac anawsterau dysgu dwys a lluosog (ADDLl). Dylai hyn ond ddigwydd os oes gwahaniaeth sylweddol rhwng cynnydd y ddau grŵp.

Dylai arolygwyr ystyried p'un a yw grwpiau penodol o ddysgwyr yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent o ran eu mannau cychwyn a'u hoedran a'u gallu.

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae dysgwyr yn datblygu'r medrau sy'n ofynnol i fanteisio ar y cwricwlwm cyfan a dysgu'n effeithiol trwy gydol eu bywydau. Dylai arolygwyr adrodd yn glir ar safonau dysgwyr mewn medrau llythrennedd, cyfathrebu, rhifedd a digidol. Wrth arolygu medrau, dylai'r ffocws fod ar ba mor dda y mae dysgwyr yn defnyddio eu medrau llythrennedd, medrau rhifedd a digidol yn briodol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Os ydynt ar gael, dylai arolygwyr ystyried canlyniadau asesiadau perthnasol eraill, fel rhai o allu darllen dysgwyr, wrth lunio barn am fedrau llythrennedd dysgwyr.

Dylai arolygwyr farnu safonau mewn medrau ar sail tystiolaeth uniongyrchol, er enghraifft o arsylwi dysgwyr mewn sesiynau, teithiau dysgu, craffu ar waith dysgwyr a thrafodaethau â dysgwyr. Bydd arsylwi'n ofalus ar ddysgwyr mewn sesiynau a siarad â dysgwyr yn darparu tystiolaeth o'u medrau siarad a gwrando, eu medrau rhifedd a'u gallu i feddwl. Bydd craffu ar waith yn darparu tystiolaeth o ba mor dda y gall dysgwyr ysgrifennu'n glir a deall yr hyn y maent yn ei ddarllen, a pha mor dda y gallant ddefnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar lefelau priodol ar draws meysydd dysgu.

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae lefel medrau cyfathrebu a meddwl dysgwyr yn cefnogi neu'n rhwystro eu cynnydd wrth ryngweithio yn yr ystafell ddosbarth ag athrawon a dysgwyr eraill. Dylent ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn datblygu eu creadigrwydd a'u medrau corfforol, yn yr ystafell ddosbarth a'r awyr agored, a pha mor fentrus ydynt.

Lle bo'n berthnasol, dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae dysgwyr yn datblygu eu medrau echddygol manwl a bras, eu symudedd a'u medrau byw yn annibynnol. Dylent ystyried i ba raddau y mae dysgwyr yn datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i'w paratoi ar gyfer bywyd yn y dyfodol. Dylai arolygwyr werthuso pa mor effeithiol y mae dysgwyr yn datblygu eu medrau cymdeithasol, gan gynnwys eu gallu i uniaethu â dysgwyr eraill, staff a phobl sy'n ymweld â'r coleg.

## 2 Lles ac agweddau at ddysgu

### 2.1 Lles

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag cam-drin corfforol a geiriol. Dylent ystyried i ba raddau y maent yn deall sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel o fewn y coleg, yn y gymuned ehangach ac ar-lein.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn dod yn unigolion iach a hyderus, ac yn deall, er enghraifft, sut i wneud dewisiadau iach yn ymwneud â diet, gweithgarwch corfforol a lles emosiynol. Dylent ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon yn eu bywydau eu hunain yn y coleg, ac yn ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd i ymgymryd â gweithgarwch corfforol, er enghraifft yn ystod gwersi, amser egwyl ac amser cinio a thrwy glybiau a gweithgareddau eraill.

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae dysgwyr yn barod i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain a chwarae rhan lawn ym mywyd a gwaith y coleg, er enghraifft fel aelodau o gyngor y coleg. Dylent ystyried p'un a yw dysgwyr yn teimlo bod y coleg yn gwrando ar eu barn ac yn ei hystyried mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

Dylai arolygwyr ystyried yr ymatebion i'r holiaduron cyn-arolygiad gan ddysgwyr, staff a rhieni yn ofalus mewn perthynas â lles dysgwyr, a datblygu cwestiynau datblygol, lle y bo'n briodol. Dylai arolygwyr hefyd ystyried tystiolaeth a ddaw o arsylwi dysgwyr yn rhyngweithio â'u cyfoedion, eu hathrawon a staff eraill, ynghyd â thystiolaeth o drafodaethau ag unigolion a grwpiau.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn dangos hyder a gwydnwch yn eu bywydau, er enghraifft yn y ffordd y maent yn rhyngweithio â phobl newydd a gyda'u cyfoedion. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn datblygu fel dinasyddion moesegol, gwybodus, er enghraifft trwy eu hymwybyddiaeth o degwch, cydraddoldeb, cynaliadwyedd a goddefgarwch a hawliau pobl ifanc.

### 2.2 Agweddau at ddysgu

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae dysgwyr yn datblygu'r agweddau a'r ymddygiadau allweddol sydd eu hangen arnynt drwy gydol eu bywydau. Yn benodol, dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae dysgwyr yn ddysgwyr uchelgeisiol, hyderus, galluog ac annibynnol. Dylent ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn ymroi i brofiadau a syniadau newydd, anghyfarwydd. Dylent farnu diddordeb dysgwyr yn eu gwaith, eu gallu i gynnal eu canolbwyntio a pheidio â gadael i bethau dynnu eu sylw. Dylent ystyried pa mor barod y mae dysgwyr i ymroi i dasgau, a'u cwblhau. Dylent werthuso pa mor dda y mae dysgwyr yn dyfalbarhau ac yn parhau'n benderfynol pan fyddant yn wynebu anawsterau neu'n ceisio atebion eraill pan fydd eu dull cyntaf o ddatrys problem yn aflwyddiannus.

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae dysgwyr yn barod i ddysgu ar ddechrau gwersi a ph'un a ydynt yn symud yn hawdd rhwng gwahanol sesiynau a gweithgareddau. Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae dysgwyr yn gallu gweithio mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft yn annibynnol neu mewn grwpiau bychain. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn dangos medrau

gweithio mewn tîm, gan gynnwys parch tuag at gyfraniadau pobl eraill, er enghraifft trwy ganiatáu i bobl eraill siarad neu fod yn bwyllog pan fydd pobl eraill yn anghytuno â nhw.

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae dysgwyr yn dangos ymddygiad da mewn gwersi ac o gwmpas y coleg. Dylent edrych ar ba mor dda y mae dysgwyr yn symud rhwng gweithgareddau a dosbarthiadau, a pha mor dda y maent yn ymddwyn yn ystod gweithgareddau, er enghraifft pan fydd y coleg cyfan yn ymgynnull. Dylent arsylwi a yw dysgwyr yn ystyriol o'i gilydd, o athrawon ac o oedolion eraill, ac yn uniaethu'n dda â nhw.

Wrth werthuso cyfranogiad mewn dysgu a'i fwynhau, dylai arolygwyr ystyried y dystiolaeth a ddaw o sesiynau addysgu neu hyfforddi, craffu ar waith dysgwyr, (yn cynnwys gwaith wedi'i greu yn ddigidol), a chyfweliadau â dysgwyr.  Dylent ystyried i ba raddau y mae dysgwyr yn datblygu hyder ac wedi'u symbylu i ddysgu.

Wrth werthuso presenoldeb fel tystiolaeth o gyfranogiad ac ymgysylltiad dysgwyr â dysgu, dylai arolygwyr adrodd trwy eithriad, h.y. os oes tuedd glir o bresenoldeb gwan neu bresenoldeb cryf iawn neu os yw presenoldeb wedi gwella'n sylweddol. Dylai arolygwyr ystyried y tueddiadau yng nghyfradd presenoldeb gyffredinol y coleg a'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael, gan gynnwys unrhyw amrywiadau nodedig rhwng grwpiau penodol o ddysgwyr a phobl eraill. Dylent ganolbwyntio'n benodol ar y gyfradd absenoldebau parhaus ac ystyried faint o ddysgwyr sydd â chyfraddau absenoldeb ymhell uwchlaw rhai eraill yn y coleg. Fodd bynnag, dylai arolygwyr ystyried ffactorau lliniarol sylweddol hefyd, os oes tystiolaeth gadarn i'w cefnogi, er enghraifft yn gysylltiedig â phresenoldeb mewn clinigau iechyd neu apwyntiadau ysbyty. Dylent ystyried i ba raddau y mae dysgwyr sydd â hanes o bresenoldeb gwael yn eu hysgol / coleg / UCD bresennol neu flaenorol yn dangos presenoldeb gwell.

Dylai arolygwyr ystyried sut mae pandemig COVID-19, ac unrhyw darfu ar ddysgu wedi'i achosi gan y pandemig, wedi effeithio ar les a chyfranogiad dysgwyr, a'u hymgysylltiad â dysgu.

## 3 Addysgu a phrofiadau dysgu

### 3.1 Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm

Dylai arolygwyr werthuso'r graddau y mae profiadau dysgu ar draws y coleg yn ysgogi ac yn herio dysgwyr fel eu bod yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu ac yn gwneud y cynnydd gorau posibl.

Dylai arolygwyr ystyried ymagwedd strategol y coleg at gynllunio'r ddarpariaeth a'r graddau y mae'n helpu dysgwyr i fod yn unigolion uchelgeisiol, hyderus, dyheadol a gwybodus. Dylai arolygwyr ystyried graddau a phriodoldeb y trefniadau i ddysgwyr ymgymryd â phrofiad digonol, perthnasol ac o ansawdd uchel yn gysylltiedig â gwaith. Dylent ystyried i ba raddau y mae rhaglenni dysgu yn paratoi dysgwyr ar gyfer eu dewis gyrchfannau.

Dylai arolygwyr ymdrin ag arloesedd a hyblygrwydd mewn ffordd gadarnhaol pan mae colegau wedi ceisio bod yn greadigol a dychmygus wrth fwrw ymlaen â mentrau cwricwlaidd tra ystyriol er budd dysgwyr.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol dysgwyr wrth iddynt symud trwy'r coleg. Dylent ystyried i ba raddau y mae'r coleg yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau ar gyfer dysgwyr i ddatblygu eu diddordebau a'u medrau ar draws amrywiaeth o bynciau a meysydd dysgu.

Lle bo'n berthnasol, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r coleg yn darparu ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr, er enghraifft dysgwyr y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae dysgwyr yn defnyddio'r cyllid ar gyfer dysgwyr ag anghenion uchel fel bod eu rhaglenni dysgu unigol yn herio dysgwyr i: ddatblygu eu hannibyniaeth; gwella eu medrau cyfathrebu; gwneud dewisiadau a phenderfyniadau perthnasol; a pharatoi eu hunain ar gyfer bywyd oedolyn.

Dylai arolygwyr ystyried y ffyrdd y mae'r coleg yn datblygu rhaglen o weithgareddau dysgu sy'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig Cymru.

Dylai arolygwyr ystyried natur a graddau cyfleoedd dysgu ychwanegol. Er enghraifft, ymweliadau addysgol, cymryd rhan mewn cystadlaethau medrau galwedigaethol, ennill cymwysterau ychwanegol a digwyddiadau elusennol a chodi arian.

Dylai arolygwyr werthuso'r graddau y mae trefniadau'r cwricwlwm yn sicrhau bod dysgwyr yn caffael y medrau angenrheidiol mewn llythrennedd, cyfathrebu, medrau rhifedd a medrau digidol i gefnogi eu gwaith. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r coleg wedi ystyried datblygiad medrau llythrennedd, cyfathrebu, rhifedd a medrau digidol dysgwyr wrth gynllunio profiadau dysgwyr o ran medrau galwedigaethol, academaidd neu fedrau ehangach dysgwyr.

Dylent edrych ar y dystiolaeth yn llyfrau dysgwyr, mewn ffolderi ar-lein a dosbarthiadau i ystyried y graddau y mae'r cynllunio yn helpu cyflwyno cyfleoedd pwrpasol i ddysgwyr ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm.

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae'r cwricwlwm yn galluogi dysgwyr i ddatblygu medrau fydd eu hangen arnynt mewn bywyd yn y dyfodol, er enghraifft medrau byw yn annibynnol.

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae'r coleg yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr gymhwyso eu medrau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Ni ddylai'r prif werthusiadau, y cyd-destun a'r crynodeb adrodd yn uniongyrchol bod y coleg wedi ennill unrhyw wobrau a enwir, yn cynnwys y rhai a ariennir yn gyhoeddus. Fodd bynnag, gellir cyfeirio at y gwobrau a enwir yn sail y dystiolaeth, yn enwedig ble mae'r wobr wedi cael effaith ar wella safonau neu ddarpariaeth.

### 3.2 Ansawdd yr addysgu a'r asesu

Wrth werthuso addysgu, dylai arolygwyr nodi nad oes unrhyw fethodoleg sy'n cael ei ffafrio na thempled penodedig y dylai athrawon ac ymarferwyr eraill eu dilyn a gall athrawon ddefnyddio amrywiaeth o wahanol ddulliau gydag amser. Yr ystyriaeth allweddol yw a yw'r addysgu yn llwyddo i ennyn diddordeb dysgwyr a pha mor dda y mae'n datblygu eu medrau llythrennedd, cyfathrebu, rhifedd a digidol, eu medrau galwedigaethol neu fedrau ehangach a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth i lefel briodol o uchel wrth iddynt symud ymlaen drwy eu rhaglen.

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae gan athrawon ac ymarferwyr eraill ddisgwyliadau uchel o bob dysgwyr. Dylent ystyried ansawdd cynllunio a pha mor dda y mae eu cynllunio'n bodloni anghenion y rhaglen ddysgu. Dylent ystyried y graddau y mae gan athrawon amcanion clir ar gyfer dysgu'r dysgwyr ac y maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau ac adnoddau i ennyn diddordeb y dysgwyr a'u herio i gyflawni cystal ag y gallant.

Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae athrawon ac ymarferwyr eraill yn defnyddio amrywiol dechnegau holi i ymestyn a datblygu ymatebion dysgwyr ymhellach, a chael amcan o'u dealltwriaeth. Dylent ystyried eglurder cyfarwyddiadau ac esboniadau a pha mor dda y mae'r dysgwyr yn datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ganlyniad. Dylent werthuso pa mor dda y mae'r athrawon yn symbylu ac yn cyfarwyddo dysgwyr ac yn gwneud eu sesiynau yn lleoedd ysgogol a difyr ble gall ddysgwyr ddysgu'n gynhyrchiol. Dylai arolygwyr farnu pa mor llwyddiannus y mae staff cymorth yn cefnogi dysgu.

Mae'r ffocws ar asesu yn y maes arolygu hwn ar asesu medrau sy'n berthnasol i'r rhaglen ddysgu. Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae dysgwyr yn datblygu a chymhwyso ystod eang o fedrau a gwybodaeth sy'n briodol i'w cymwysterau neu nodau dysgu cytûn. Dylai arolygwyr werthuso'r adborth geiriol ac ysgrifenedig gan athrawon hefyd i helpu dysgwyr i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Dylent ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn deall sut i asesu eu perfformiad eu hunain.

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae athrawon yn dadansoddi deilliannau eu hasesiad o ddysgwyr i lywio'r modd y maent yn cynllunio gwersi yn y dyfodol, a'r camau nesaf yn nysgu dysgwyr. Dylent ystyried pa mor dda y mae athrawon yn sicrhau bod eu hasesiadau yn ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy.

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae'r uwch reolwyr a'r staff yn olrhain a chadw cofnodion ar gynnydd pob dysgwr ac yn adrodd ar y rhain yn glir i fodloni anghenion dysgwyr, rhieni, gofalwyr ac awdurdodau lleoli. Dylent ystyried pa mor dda y mae athrawon yn sicrhau bod eu hasesiadau yn ddilys, yn amserol, yn gywir ac yn ddibynadwy.

Dylai arolygwyr werthuso a yw dysgwyr yn adolygu eu dysgu eu hunain yn rheolaidd, yn deall eu cynnydd ac yn cymryd rhan mewn gosod eu targedau dysgu eu hunain, yn cynnwys defnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Wrth lunio gwerthusiadau ar addysgu ac asesu, dylai arolygwyr ddefnyddio ystod lawn y dystiolaeth sydd ar gael iddynt. Mae hyn yn debygol o gynnwys tystiolaeth o ffeiliau neu bortffolios dysgwyr, cynlluniau dysgu, cofnodion asesu a gwybodaeth am gynnydd dysgwyr, arsylwadau sesiynau a thrafodaethau gyda dysgwyr. Ni ddylai arolygwyr ddyfarnu barn i sesiwn neu athro unigol, ond dylent adrodd ar y cryfderau a'r gwendidau yn ansawdd yr addysgu a'r asesu ar draws y coleg.

## 4 Gofal, cymorth ac arweiniad

### 4.1 Datblygiad personol

Dylai arolygwyr werthuso effeithiolrwydd arweiniad a chyngor diduedd a roddir i ddysgwyr cyn iddynt ddechrau eu rhaglen gan y coleg ac asiantaethau allanol eraill.

Dylai arolygwyr ystyried cydlyniaeth ac effeithiolrwydd cyffredinol y ddarpariaeth ar gyfer rhoi cymorth personol ac arbenigol, gan gynnwys gwasanaethau sydd ar gael gan asiantaethau arbenigol.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae darpariaeth y coleg yn helpu dysgwyr i ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth i wneud dewisiadau iach am ffordd o fyw, er enghraifft o ran bwyta ac yfed yn iach, camddefnyddio sylweddau, rhyw a pherthnasoedd, diogelwch ar-lein, ac ati. Dylai arolygwyr ystyried pa mor llwyddiannus y mae darpariaeth y coleg yn helpu dysgwyr i ddeall effaith dewisiadau ac ymddygiadau yn ymwneud â ffordd o fyw ar eu hiechyd a'u lles meddyliol a chorfforol yn awr ac yn y dyfodol. Dylai arolygwyr adrodd ar b'un a oes gan y coleg drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Dylent ystyried i ba raddau y mae'r coleg yn helpu dysgwyr i ddeall sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel o fewn y coleg, ac yn y gymuned ehangach.

Dylai arolygwyr edrych ar ba mor dda y mae'r coleg yn helpu dysgwyr i ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn datblygu gwerthoedd goddefgarwch a pharch. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r coleg yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o aflonyddu, gwahaniaethu, bwlio yn seiliedig ar hunaniaeth ac eithafiaeth.  Hefyd, dylent ystyried pa mor dda y mae'r coleg yn ymateb i unrhyw achosion sy'n ymwneud â bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu, ac yn ymdrin â nhw. Dylent ystyried i ba raddau y mae'r coleg yn herio stereoteipiau yn agweddau, dewisiadau a disgwyliadau dysgwyr.

Dylai arolygwyr werthuso'r graddau y mae dysgwyr, gan gynnwys y rhai o grwpiau gwahanol, yn ymgymryd â chyfrifoldebau ac yn cymryd rhan yn y gymuned ehangach.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae darpariaeth y coleg yn paratoi dysgwyr i fod yn ddinasyddion gweithredol, er enghraifft trwy wneud penderfyniadau am fywyd a gwaith y coleg. Dylent ystyried pa mor dda y mae trefniadau'r coleg yn helpu dysgwyr i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ar lefel coleg, gan gynnwys y cyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut, ac effeithiolrwydd cyngor y coleg a grwpiau dysgwyr eraill. Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae darpariaeth y coleg yn helpu dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o'u diwylliant, y gymuned leol a'r byd ehangach.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r coleg:

- yn trefnu darpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr o ran eu hanghenion a'u galluoedd unigol
- yn cefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol pob un o'r dysgwyr er mwyn iddynt allu mwynhau eu dysgu ac elwa ar y cyfleoedd y mae'n eu cynnig
- yn darparu cymorth tra ystyriol ar gyfer iechyd a lles corfforol a meddyliol dysgwyr, er enghraifft o ran pandemig COVID-19
- yn helpu dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o'u diwylliant, y gymuned leol a'r byd

ehangach

- yn olrhain ac yn monitro cynnydd a lles dysgwyr, gan gynnwys presenoldeb, ymgysylltiad ac ymddygiad
- yn defnyddio'r wybodaeth hon i ystyried cynnydd grwpiau penodol, lle bo'n briodol
- yn nodi materion perthnasol ac yn ymateb yn briodol i ddeilliannau olrhain a monitro, er enghraifft trwy ddarparu cymorth a her briodol, defnyddio strategaethau ymyrraeth, mentora neu annog unigolion neu grwpiau
- yn defnyddio partneriaethau ag eraill i ddarparu cymorth effeithiol i ddysgwyr

**Diogelu**

Bydd arolygwyr yn adrodd ar b'un a yw trefniadau'r coleg ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Pan fydd trefniadau'n destun pryder difrifol, dylai arolygwyr gynnwys argymhelliad yn yr adroddiad a gallai Estyn gynghori Llywodraeth Cymru i anfon llythyr i'r coleg yn gofyn iddynt amlinellu sut y byddant yn mynd i'r afael â'r diffyg(ion).

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae trefniadau diogelu'r coleg yn sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael eu hamddiffyn p'un a ydynt ar y safle, oddi ar y safle neu ar-lein. Dylai trefniadau gynnwys nodi dysgwyr o dan 18 oed, ac oedolion sy'n agored i niwed sydd mewn angen neu sy'n wynebu risg o niwed sylweddol, arferion recriwtio diogel a chael trefniadau priodol ar gyfer atgyfeiriadau diogelu. Hefyd, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r coleg yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant o ddiogelwch. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi gofynion a chanllawiau statudol penodol am y materion diogelu hyn a dylai fod gan golegau bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n cydymffurfio â nhw.

Bydd arolygwyr yn edrych ar ba mor effeithiol yw trefniadau'r coleg ar gyfer atal a mynd i'r afael â bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu. Dylent ystyried sut mae'r coleg yn cadw dysgwyr yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio.

Dylai arolygwyr ystyried p'un a oes gan y coleg weithdrefnau cadarn ar gyfer gwirio addasrwydd staff a phobl eraill sydd mewn cysylltiad â dysgwyr, a bod y coleg yn cynnal cofnod o'r gwiriadau hyn. Dylai arolygwyr gadarnhau bod yr holl staff yn gwybod beth i'w wneud er mwyn ymateb i faterion diogelu a bod y swyddog arweiniol a'r llywodraethwr arweiniol dynodedig, a staff eraill lle y bo'n briodol, wedi cael hyfforddiant diogelu perthnasol. Dylai arolygwyr wirio p'un a oes gan y coleg bolisïau, gweithdrefnau a threfniadau adrodd priodol o ran ymyriadau corfforol a thynnu allan o wersi. Bydd arolygwyr yn archwilio unrhyw ardaloedd a ddefnyddir ar gyfer tynnu allan o wersi.

Wrth ystyried materion diogelu, dylai arolygwyr ystyried diogelwch yn adeiladau'r coleg, ac ar y safle.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r coleg yn defnyddio ei wybodaeth am faterion diogelu, o fewn ei ddarpariaeth ei hun a darpariaeth unrhyw is-gontractwyr, a pha mor dda y caiff prosesau adrodd eu defnyddio i sicrhau ansawdd diogelu gan uwch reolwyr.

## 5 Arweinyddiaeth a rheolaeth

### 5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr wedi sefydlu a chyfleu gweledigaeth glir a nodau, amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau priodol sy'n canolbwyntio ar fodloni anghenion dysgwyr. Dylent ystyried y flaenoriaeth y mae arweinwyr wedi'i rhoi i sicrhau bod pob un o'r staff yn deall ac yn hyrwyddo diwylliant diogelu'r coleg.

Dylai arolygwyr fyfyrio ar ba mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr ar bob lefel yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff, dysgwyr a'u hunain. Dylent ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn datblygu tîm effeithiol ac ymgysylltiol o staff cymorth. Dylent ystyried i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn modelu ac yn hybu gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at wella'r coleg a chydweithredu effeithiol rhwng staff a darparwyr eraill. Dylent ystyried pa mor dda ar bob lefel y mae staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau a pha mor dda y maent yn cydweithredu wrth ddatblygu blaenoriaethau strategol a gwella.

Dylai arolygwyr ystyried ystod eang o dystiolaeth wrth werthuso ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth, er enghraifft cofnodion o amrywiaeth o gyfarfodydd diweddar, cyfweliadau â staff, cynlluniau gweithredu gwelliannau ac adroddiadau ar weithredu'r rhain, hunanasesiad diweddar gan arweinwyr a rheolwyr, a dadansoddi gwybodaeth am berfformiad dysgwyr.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a pha mor dda y maent yn gwneud penderfyniadau ac yn gosod blaenoriaethau ar gyfer gwella sy'n cydbwyso anghenion uniongyrchol, tymor byr ag anghenion tymor hir dysgwyr, y gymuned leol a Chymru.

Dylai arolygwyr edrych ar y graddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn cynnal darpariaeth ansawdd uchel neu'n gwella agweddau gwan ar y ddarpariaeth. Dylent ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn atal problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf a pha mor gyflym y maent yn cychwyn unrhyw gamau unioni gofynnol.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr wedi sefydlu rhesymeg glir a strategol ar gyfer y cwricwlwm o ran ei fanteision i ddysgwyr wrth eu paratoi i ddysgu trwy gydol eu bywydau, a chwarae rhan lawn mewn cymdeithas.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn rhannu nodweddion cadarnhaol y ddarpariaeth gyda staff ac yn cydweithredu â darparwyr a phartneriaid addysg eraill yn y sector i gyflawni gwelliannau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Dylai arolygwyr ganolbwyntio ar ba mor dda y mae'r coleg yn defnyddio partneriaethau strategol a chydweithredu ag asiantaethau eraill i helpu i feithrin ei allu i wella'n barhaus.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae llywodraethwyr[2] yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. Dylent ystyried pa mor dda y maent yn gyfarwydd â chryfderau'r coleg a'i feysydd i'w datblygu, a'r graddau y maent wedi cymryd rhan yn y gwaith i osod blaenoriaethau strategol y coleg. Dylent ystyried a oes cydbwysedd priodol rhwng cymorth a her yn y ffordd y mae'r corff llywodraethol yn dwyn uwch arweinwyr i gyfrif.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r coleg yn defnyddio'i adnoddau yn effeithlon ac yn gymesur. Dylent ystyried y graddau y mae penderfyniadau gwariant y coleg, a'i gynllunio ariannol bras, yn cysylltu'n briodol â'i flaenoriaethau strategol a chynllunio'r coleg ar gyfer gwella. O ran penderfyniadau gwariant, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r coleg yn cydbwyso'i anghenion tymor byr ochr yn ochr ag anghenion tymor hir dysgwyr.

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn gwybod beth yw costau rhaglenni a gweithgareddau dysgu presennol, yn eu hadolygu ac yn cwestiynu a ydynt yn gost-effeithiol.

Dylai arolygwyr ystyried a oes lefel briodol o staffio ac adnoddau dysgu i gyflwyno'r ddarpariaeth a gynlluniwyd yn effeithiol. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r coleg yn hyrwyddo lles a llesiant ei staff.

Dylai arolygwyr ystyried a yw'r coleg yn defnyddio'i amgylchedd dan do ac awyr agored yn effeithiol ac yn effeithlon. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r amgylchedd dysgu yn cefnogi neu'n rhwystro addysgu a dysgu o ansawdd uchel, a pha mor dda y mae'n uchafu lles corfforol a meddyliol dysgwyr.

### 5.2 Prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella

Dylai arolygwyr werthuso pa mor gywir y mae arweinwyr a rheolwyr yn adnabod cryfderau a gwendidau'r coleg. Dylent ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn casglu a dadansoddi tystiolaeth uniongyrchol o safonau a darpariaeth, gan gynnwys addysgu ac asesu. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r coleg yn cynnwys amrywiaeth eang o bartneriaid, gan gynnwys dysgwyr a rhieni, wrth nodi ei gryfderau a'i wendidau.

Dylai arolygwyr ystyried effaith prosesau cynllunio ar gyfer gwella a pha mor dda y mae'r blaenoriaethau ar gyfer gwella a nodwyd yn cysylltu â deilliannau hunanasesiad y coleg. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn sicrhau bod blaenoriaethau'n cael eu cefnogi trwy ddyrannu adnoddau. Dylent werthuso pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn diffinio camau gweithredu perthnasol a mesuradwy ar gyfer gwella o fewn amserlenni penodol a realistig ac yn dyrannu cyfrifoldeb am eu cyflawni.

Dylai arolygwyr ymchwilio i hanes y coleg o wneud gwelliannau a'r graddau y maent wedi arwain at effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles dysgwyr, er enghraifft trwy welliannau i ansawdd yr addysgu a'r hyfforddi. Lle y bo'n briodol, dylai arolygwyr

[2] Rydym wedi defnyddio'r term 'llywodraethwyr' trwy gydol yr arweiniad hwn ond yn cydnabod y gallai colegau gyfeirio at wahanol dermau ar gyfer llywodraethu a goruchwylio'r coleg.

ystyried pa mor dda y mae'r coleg wedi ymateb i argymhellion arolygiadau blaenorol Estyn neu argymhellion gan bartneriaid strategol, ac a yw camau gweithredu'r coleg wedi arwain at welliannau.

### 5.3 Dysgu proffesiynol

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos i gefnogi dysgu proffesiynol pob un o'r staff, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer cynorthwyo'r holl staff i ymroi'n weithgar i gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau proffesiynol. Dylent ystyried y graddau y mae staff yn cymryd rhan yn effeithiol mewn profiadau dysgu proffesiynol, gwerthuso a rheoli perfformiad.

Dylai arolygwyr werthuso effaith arweinwyr yn y ffordd y maent yn rheoli perfformiad staff er mwyn helpu staff i wella'u harfer. Dylent hefyd farnu p'un a yw arweinwyr a rheolwyr yn mynd i'r afael â materion tanberfformio yn drylwyr ac yn uniongyrchol, lle bydd angen.

Dylent ystyried dysgu proffesiynol a wnaed gan staff, a'i effaith ar gynnydd a lles dysgwyr a'u harfer eu hunain. Dylent archwilio i ba raddau y mae staff wedi rhannu deilliannau datblygiad proffesiynol gyda staff eraill. Dylent fwrw golwg ar ba mor dda y mae arweinwyr wedi amlygu arfer dda yn y coleg a sicrhau bod staff eraill yn gallu elwa ohoni. Hefyd, dylent ystyried pa mor dda y mae staff yn gweithio gyda darparwyr datblygiad proffesiynol i'w helpu i ddatblygu eu harfer broffesiynol.